

iaith y

PRIDD



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Ymwadiad: Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn seiliedig ar sylwadau uniongyrchol gan gyfranwyr o deuluoedd amaeth a gwledig a fu'n rhan o'r gwaith drwy naill ai gyfrannu ar ffurf ffilm mewn sioeau amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol; trwy fynychu cyfres o Ddigiwyddiadau penodol; newu gwblhau holiadur ar-lein. Ni wnaed unrhyw waith pellach i ddilysu'r wybodaeth a dderbyniwyd. Barn y bobl a fu'n rhan o'r prosiect yw'r gwaith yma.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
Cyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio
www.gov.wales/farmingconnect



Cynnwys

1. Crynodeb	3
2. Cyflwyniad	4
3. Cylch Gorchwyl	4
4. Methodoleg	5
5. Prif Themâu	6
5.1 Y System Gymorthdaliadau	7
5.2 Y System Gynllunio	7
5.3 Cefnogi Gweithgarwch ar y Tir	8
5.4 Clybiau Ffermwyr Ifanc	8
5.5 Addysg ac Adnoddau Addysgol	9
5.6 Bywyd tu hwnt i'r Buarth	10
6. Canfyddiadau	11
7. Casgliadau	13

Iaith y Pridd

Mae'r berthynas rhwng y Gymraeg ac aelodau'r diwydiant amaethyddol a'u gweithgarwch yn hysbys eisoes. Gyda chanran uwch o weithwyr yn y sector amaethyddol yn medru'r Gymraeg nag unrhyw sector arall yng Nghymru a'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant (43%)¹ yn sylweddol uwch na chyfartaledd y boblogaeth gyffredinol (19%)², mae'r cysylltiad rhwng dyfodol amaeth a dyfodol yr iaith yn gryf. Nodwyd pwysigrwydd y cysylltiadau hyn yn ddiweddar gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg³ a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg⁴. O ystyried cryfder y berthynas, teimlwyd y dylid ystyried a oes modd i'r diwydiant gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gan ddefnyddio rhwydwaith eang aelodaeth Cyswllt Ffermio yn sylfaen, casglwyd barn a syniadau sampl o'r diwydiant i weld a oes yna ewyllys a chyfle i'r diwydiant weithredu'n ymarferol i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg.

¹ Llywodraeth Cymru, 2019: Amaethyddiaeth yng Nghymru 2019 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/amaethyddiaeth-yng-nghymru-tystiolaeth.pdf>

² Cyfrifiad 2011

³ <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Newyddion/Pages/Effaith-Brexit-ar-y-Gymraeg.aspx>

⁴ <https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/brexit-could-cause-devastation-welsh-15348571>

I. Crynodeb

Trwy brosiect "Iaith y Pridd", rhoddodd Cyswllt Ffermio gyfle i aelodau'r gymuned amaethyddol leisio barn ar y cwestiwn canlynol - "Sut all amaethyddiaeth gyfrannu at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?". Trwy gyfrwng grwpiau ffocws, cyfweiliadau mewn sioeau amaeth, "bôth amaeth" a holiadur ar-lein, cafwyd cyfle i gyfrannu syniadau. Wedi dadansoddi'r holl sylwadau a ddaeth i law, credir bod ymchwil "Iaith y Pridd" yn dangos:

Bod yma gyfle i weithredu wrth warchod ac ymestyn y Gymraeg mewn cylchoedd amaethyddol, a hynny ar lefel polisi Llywodraeth, ac ar lefel gymunedol.

Awgrymir y gallai'r Llywodraeth weithredu gan:

- i. Sicrhau bod polisiau a'r system gymorthdaliadau yn cefnogi gweithgarwch ar y fferm deuluol.
- ii. Sicrhau bod y gyfundrefn gynllunio yn cefnogi mentrau a chymunedau gwledig.
- iii. Ffurfioli'r gefnogaeth i glybiau Ffermwyr Ifanc i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn sirol ac yn genedlaethol.
- iv. Gweithio gyda'r sector ôl 16 i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyrsiau sydd yn gysylltiedig ag amaeth ac ariannu cyfundrefn i gyhoeddi a chyfieithu adnoddau addysg amaeth ar gyfer y sector.
- v. Ariannu swydd hwylusydd i gydlynu'r partneriaid sydd â diddordeb mewn cynnal a thyfu'r Gymraeg ym myd amaeth.

Byddai'r pwynt olaf hwn yn arwain yn y tymor byr at weithredu yn gymunedol, gan:

- i. Sefydlu cynllun cyfeillio rhwng aelodau'r gymuned amaethyddol, a hefyd rhwng amaethwyr ac unigolion mewn sectorau perthynol.
- ii. Annog yr Undebau amaeth i adnabod unigolion a allai gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn eu hundeb.
- iii. Ysgogi, galluogi a chefnogi to amaethyddol ifanc i ddysgu sgiliau digidol i greu cynnwys sy'n hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r Gymraeg yn eu cymuned a'i ddarlledu ar-lein.
- iv. Annog datblygiad mudiadau hamdden i bobl oed ôl-CFfl.
- v. Dechrau cynllun dysgu Cymraeg ar lein ag iddo ogwydd amaethyddol.
- vi. Agor grwpiau sgwrsio/dosbarthiadau Cymraeg i ddysgwyr mewn mannau ymgynnull amaethyddol.

Yn yr tymor hir gellid ystyried:

- Rhoi statws Dynodiad Daaryddol Gwarchodedig (PGI) i'r Gymraeg gan adnabod y Gymraeg fel Nodwedd Arbennig ac atgyfnerthu datblygiad labeli Cymraeg ar gynnyrch bwyd.
- Rhoi cefnogaeth i'r marchnadoedd da byw, am eu bod yn cynnig cyfle cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn ysgogydd sosio-economaidd i amgylchedd yr iaith.
- Cefnogi darpariaeth i'r di-Gymraeg i gyfieithu deunydd i'w busnes/menter wledig a hyrwyddo cynhyrchion/gwasanaethau. Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau/cyrff/asiantaethau/busnesau sy'n ymwneud ag amaeth.
- Gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol mewn mannau lle mae amaethwyr di-Gymraeg yn ymgynnull.

2. Cyflwyniad

Ar gyfartaledd mae 19%⁵ o boblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg. Mae canran y gyfartaledd genedlaethol sydd yn medru'r Gymraeg **ac** sy'n ennill eu bywoliaeth yn y sector amaeth yn uwch, gyda 43%⁶ o'r sawl sy'n cael eu cyflogi drwy amaethyddiaeth yn medru siarad Cymraeg. Mae'r ganran hon yn uwch na'r ganran mewn unrhyw ddiwydiant arall yng Nghymru. Yn ddiamheuaeth, mae cysylltiad byw rhwng bodolaeth a dyfodol y Gymraeg, a'r diwydiant amaeth. Mae'r ganran sy'n medru'r Gymraeg o fewn amaeth yn uwch wrth gwrs na 43% mewn ardaloedd o'r Gogledd a'r Gorllewin, ac yn is yn yr ardaloedd amaethyddol tua'r Dwyrain. Ond, er bod lefel gallu'r amaethwyr yn y Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal, mae'r diwydiant yn parhau'n llinyn cyswllt ac yn dir cyffredin rhyngddynt boed yng Ngheredigion neu yng Nghasnewydd. Y cwestiwn felly ar gyfer adroddiad "*laith y Pridd*" yw – A oes modd i'r iaith symud ar hyd y llwybrau naturiol sy'n bodoli rhwng ardaloedd amaethyddol Cymraeg a di-Gymraeg? Os felly, sut all hynny ddigwydd yn ymarferol, ac a oes gan y sector amaethyddol rôl i'w chwarae wrth warchod a chynyddu'r defnydd Gymraeg, gan gyfrannu at ymdrech Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050?

3. Cylch Gorchwyl

Bwriad "*laith y Pridd*" yw ystyried sut y gall y gymuned amaethyddol Gymraeg ei hiaith yng Nghymru gyfrannu at wireddu nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I wneud hyn, roedd angen ystyried pa ffactorau sydd yn cynnal yr iaith ar hyn o bryd mewn cymunedau amaethyddol Cymraeg, a gofyn beth oedd angen er mwyn gwarchod y cryfderau presennol, cyn ystyried os oes yna gyfleoedd i drawsblannu rhai o'r cryfderau hynny i dyfu'r iaith mewn cymunedau amaethyddol lle nad yw'r iaith mor gryf.

I ddeall y sefyllfa mewn ardaloedd amaethyddol Cymraeg (ardaloedd gyda nifer gymharol uchel o'u trigolion wedi'u cyflogi yn y sector amaethyddol a chanran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg), roedd angen siarad â sampl o'r trigolion sydd yn byw yn y cymunedau hynny. I gael golwg o'r darlun mewn cymunedau amaethyddol llai Cymraeg (ardaloedd gyda nifer gymharol uchel o'u trigolion wedi'u cyflogi yn y sector amaethyddol ond gyda chanran gymharol isel o siaradwyr Cymraeg), roedd angen casglu braslun o farn y trigolion yr yr ardaloedd hynny hefyd.

⁵ Cyfrifiad 2011

⁶ Llywodraeth Cymru, 2019: Amaethyddiaeth yng Nghymru 2019,

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/amaethyddiaeth-yng-nghymru-tystiolaeth.pdf>

4. Methodoleg

Roedd angen casglu tystiolaeth o lawr gwlad gan Gymry Cymraeg am yr hyn maent yn ei wneud, a'r hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau i gynnal yr iaith. Rhaid hefyd oedd casglu barn Cymry di-Gymraeg o ardaloedd amaethyddol i ddeall beth oedd eu hasesiad hwy o bresenoldeb y Gymraeg yn eu cylch; eu dymuniadau a'u hanghenion o ran derbyn y Gymraeg i'r ardal, a chael blas o'r parodrwydd a'r awydd sy'n bodoli i groesawu'r iaith. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ddenu ymatebion cyffredinol a manwl, ac ymgynghori gydag ystod eang o rhanddalwyr, penderfynwyd mynd ati i wahodd sylwadau drwy aml gyfrwng.

GRWPIAU FFOCWS – darparwyd cyfleoedd yng Nghaerfyrddin, Llanfair ym Mualt, Bala, Pen Llŷn a Thregaron i aelodau Cyswllt Ffermio ddod ynghyd i drafod dan arweiniad hwylusydd. Ar gyfartaledd, trafodwyd am gyfnod o awr a hanner a recordiwyd y cyfraniadau ar gamera. Mynychodd cyfanswm o 43 unigolyn y grwpiau ffocws.

SIOEAU AMAETHYDDOL – teithiodd gohebydd a dyn camera i sioeau Llanbedr Pont Steffan, Hwlfordd a Llandeilo. Yn y sioeau casglwyd trawsdoriad o gyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gan aelodau o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn y gymuned amaethyddol. Recordiodd cyfanswm o 21 unigolyn eu barn ar gamera.

“BŴTH AMAETH” – yn y Sioe Frenhinol ac yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, sefydlwyd cyfle tebyg i'r un a ddarperir gan flwch tynnu lluniau. Hynny yw, bu cyfle i unigolion fynd ar eu liwt eu hunain, i breifatrwydd ystafell lle roedd camera wedi ei osod i recordio eu barn. Roedd dau gwestiwn wedi eu hysgrifennu ar bapur gerllaw'r camera i'r unigolion ymateb iddynt. Y cwestiwn agoriadol oedd *“Beth yw'r peth gorau am fyw yng nghefn gwlad Cymru?”* Yna, er mwyn treiddio yn fanylach i amcan craidd iaith y Pridd, yr ail gwestiwn oedd *“Sut all y gymuned amaethyddol gyfrannu at nod y Llywodraeth o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?”* Cafwyd 172 o ymatebion.

HOLIADUR AR-LEIN – denodd y cyfrwng hwn 177 o ymatebion. Gan gofnodi barn ar-lein, roedd yma gyfle pellach i gyfrannu syniadau a phrofiadau ar sut i ehangu'r iaith rhwng cymunedau amaethyddol.

Trwy'r Grwpiau ffocws, y Sioeau, y Bŵth Amaeth a'r holiadur, cafwyd cyfanswm o **413 o ymatebion**.

5. Prif Themâu

Nodwyd nifer o faterion unigol a phenodol yn ymatebion cyfranwyr *laith y Pridd*, ynghyd â nifer o bwyntiau gweithredu bras a manwl. Wedi dadansoddi'r ymatebion o'r pedwar cyfrwng, mae modd eu dosbarthu i'r chwe thema gyffredinol a amlinellir isod

- i. Y system gymorthdaliadau;
- ii. Y system gynllunio;
- iii. Cefnogi gweithgarwch ar y tir;
- iv. Clybiau Ffermwyr Ifanc;
- v. Addysg ac adnoddau addysgol;
- vi. Bywyd tu hwnt i'r buarth

Mae hefyd modd adnabod dau ddosbarth bras yn yr ymatebion sydd yn gyffredin i'r chwe thema.

Yn gyntaf, mae yna garfan sylweddol o ymatebion sydd yn crybwyll gweithredu i warchod yr iaith yn ei chynefin, neu awgrymiadau ar sut i osgoi peryglu'r iaith yn ei chadarnleoedd. Yn ail, mae yna garfan arall o ymatebion (ychydig yn llai) sydd yn awgrymu sut i ehangu'r iaith y tu hwnt i'r cadarnleoedd traddodiadol a chreu cysylltiadau a dulliau newydd a fydd yn cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn cymunedau sydd ar hyn o bryd yn gymharol ddi-Gymraeg. Wrth ddadansoddi'r ymatebion 'gwarchodol' ac 'ymledol' hyn, daeth yn amlwg bod y feddylfryd 'warchodol' yn gryfach mewn ymatebwyr o ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf ar hyn o bryd. Fel y dywedodd un ymatebydd "rydym yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd gennym ni i'w golli". Roedd yr ymatebion hyn hefyd yn dueddol o ganolbwyntio ar ddulliau o warchod a chefnogi'r cymunedau gwledig hynny lle mae'r defnydd o'r iaith yn gryf, gan fynegi y byddai'r iaith yn ffynnu os byddai'r gymuned yn ffynnu, a byddai hynny yn ei dro yn darparu sylfaen gadarn i adeiladu unrhyw dwf ieithyddol arno. Mynegwyd y byddai'n peryglu twf yr iaith pe byddai'r sylfaen hon yn troi'n ansefydlog. Roedd y feddylfryd 'ymledol' yn fwy amlwg mewn ardaloedd lle nad oedd y Gymraeg mor draddodiadol gryf. Yn hytrach na dulliau o gynnal cymunedau gwledig, tueddai'r ymatebion 'ymledol' i ganolbwyntio ar weithredoedd yn eu cymunedau a fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r iaith yn uniongyrchol.

"Heb gymuned wledig mi fydd yr iaith yn dirywio'n araf nid ehangu."

"We need more opportunities to learn Welsh and to meet other Welsh speakers"

5.1 Y System Gymorthdaliadau

Yn ddi-ffael, a thrwy gyfrwng pob un o'r pedwar dull holi barn a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth i'r arolwg hwn, nododd amaethwyr bod strwythuro a gweithredu'r system gymorthdaliadau yn allweddol er mwyn cynnal a thyfu'r iaith Gymraeg. Mynegwyd bod taliadau sy'n **cefnogi'r fferm deuluol** yn galluogi teuluoedd i aros mewn ardaloedd gwledig, amaethyddol, a bod hyn yn cynnal ysgolion, cymunedau ac felly, y Gymraeg. Tanlinellwyd sut y byddai cynnal nifer o ffermydd bychain (o'i gymharu ag un fferm fawr) yn darparu gwaith i nifer o deuluoedd ac o ganlyniad yn annog cymuned a iaith fyw. Y dymuniad oedd gweld **capio ar gymorthdaliadau** yn gysylltiedig â ffermio darn o dir, gan osod pwyslais yn lle hynny, ar y berthynas rhwng taliadau a'r **nifer sy'n ennill bywoliaeth o'r fferm**.

“Mae'n hanfodol cadw a buddsoddi yn ein ffermydd 'bach' teuluol sydd yn eu tro yn cadw cymunedau ac ysgolion ar agor ac yn ffynnu.”

“Pe tasech chdi yn capio'r taliadau... mi fasa fo'n stopio'r cwmnïau mawr 'ma ddod a phrynu miloedd ar filoedd o aceri”

5.2 Y System Gynllunio

O dderbyn bod iaith yn ffynnu lle mae cymuned fyw, bu trafod sylweddol ar yr angen i weithredu rheoliadau cynllunio mewn modd sy'n **cefnogi ffermwyr sy'n dymuno mentro ac arallgyfeirio**. Tanlinellwyd sut mae datblygu'r economi wledig yn golygu cynnal bywoliaeth, cymunedau a'r Gymraeg. Mynegwyd yr angen i **hwyluso adeiladu cartrefi ar ffermydd ar gyfer y genhedlaeth nesaf**. Trafodwyd hefyd sut y mae perchnogion ail-gartrefi yn prisio pobl ifanc allan o'r farchnad leol, gan eu gwrthio o'u cymunedau a niweidio ffyniant y Gymraeg gan gyfrannu at ddiboblogi gwledig ac allfudiad ieuenctid. Lleisiwyd y farn bod sefyllfa ail-gartrefi'n fwy niweidiol i gymunedau amaethyddol na chymunedau eraill, oherwydd bod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu'n fwy helaeth ar gymunedau amaethyddol na chymunedau eraill. Nodwyd hefyd fod yr angen am dai gwledig sydd yn agos i ddaliadau yn fwy yn y sector amaeth na sectorau eraill. Mynegwyd bod ymdrechion i godi treth cyngor ychwanegol ar dai gwyliau mewn mannau wedi methu, oherwydd bod perchnogion tai gwyliau o ganlyniad wedi dechrau cofrestru'r adeiladau fel busnesau twristiaeth gan osgoi talu Treth y Cyngor yn gyfan-gwbl. Bu apêl hefyd i'r system gynllunio weithredu i **warchod enwau llefydd Cymraeg**, er mwyn sicrhau bod yr iaith yn weledol i drigolion lleol ac ymwelwyr.

“Mae angen... bod meibion a merched ffermydd yn gallu cael caniatâd cynllunio i godi sied er mwyn dechre' busnes arall”

“Mae lle... i helpu pobl ifanc, Cymry Cymraeg, i adeiladu tai i helpu nhw i gael tir, i gael tai yn eu cynefin”

5.3 Cefnogi Gweithgarwch ar y Tir

Roedd cyfranwyr “*laith y Pridd*” yn dymuno gweld eu **tir yn cynhyrchu, yn hytrach na symud i reoli tir mewn modd anweithredol**. Roedd yna ymdeimlad cyffredin bod pwyslais cynyddol ar amaethwyr i symud yn fwyfwy at ddatblygu coedwigoedd a darparu gwasanaethau ecosystem. Mynegodd nifer o'r cyfranwyr eu pryder am effeithiau ymyraethau ‘ail-wylltio’ yn benodol. Tanlinellwyd bod diboblogi gwledig yn medru digwydd o ganlyniad i droi tir amaethyddol o gynhyrchu bwyd i ddarparu ‘nwyddau’ amgylcheddol yn unig, gyda ‘phrosesau naturiol’ a dulliau anweithredol o reoli tir yn cynnig llai o weithgarwch yn yr economi wledig sydd yn ddibynnol ar sector amaeth gynhyrchiol (megis contractwyr, darparwyr nwyddau a gwasanaethau, llafurwyr, milfeddygon ayyb), ac yn y pen draw byddai hyn yn achosi i'r iaith gilio yn y sector ehangach wrth i'r sector amaethyddol grebachu. Mynegwyd hefyd **na fyddai twf mewn sectorau eraill, yn enwedig y sector dwristiaeth, yn darparu'r un cymhelliad i ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ganlyniad ni fyddai'n llenwi'r bwlch** a ddeuai o ganlyniad i leihad unrhyw weithgarwch yn y sector amaethyddol.

“Trwy sicrhau diwydiant amaethyddol llewyrchus bydd y cyfleon i bobl ifanc aros yn y diwydiant a pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg... boed hynny'n uniongyrchol... neu yn y diwydiannau sy'n gysylltiedig â ffermio...”

“Os ydy'r taliadau yn mynd i... gael ffocws ar unrhyw beth ond cynhyrchu, os ydi'r ffocws yn mynd i fod yn gwbl amgylcheddol, wel mae ‘na beryg [er enghraifft] bydd ‘na rhai ffermwyr tenant, a ‘dyn ni’n gweld e’n digwydd yn barod, yn cael marching orders... am bod y landlord yn gweld ffordd... i gymryd taliadau am y gwaith amgylcheddol [ei hunain]”

5.4 Clybiau Ffermwyr Ifanc

Dyma bwnc daniodd sylwadau ym mhob cyfrwng holi. Yr alwad oedd yn cael ei lleisio dro ar ôl tro oedd bod angen dulliau i ariannu gweithgarwch Cymraeg y mudiad gyda nawdd cyhoeddus. Cynigwyd mai un ffordd o wneud hyn fyddai i arfogi Cynghorau Sir i ariannu gweithgarwch Cymraeg y clybiau yn eu cylch. Yn ddieithriad roedd Mudiad CFFl yn cael ei adnabod fel un sydd ar y rheng flaen wrth gynnal yr iaith mewn cymunedau gwledig, ac yn un y gallai fod yn allweddol wrth fynd â'r iaith i gymunedau amaethyddol di-Gymraeg gan fod ganddynt grwpiau a strwythurau yno yn barod. Gyda chefnogaeth ariannol ddigonol, y fam oedd y gallai mudiad CFFl Cymru weithredu i ddatblygu eu deunydd digidol dwyieithog, cynnal eisteddfodau mewn ardaloedd di-Gymraeg a chyflwyno mwy o gystadlaethau i ddysgwyr mewn eisteddfodau er mwyn annog ardaloedd di-Gymraeg i ddod i adnabod diwylliant a bywyd Cymraeg. Er yr awydd i weld CFFl yn derbyn nawdd ariannol i'r perwyl hyn, nodwyd hefyd bod angen i'r mudiad gynnal ei annibyniaeth o strwythurau statudol, ac felly cynigwyd y dylai'r nawdd ariannol fod ar ffurf **grant sefydlog i hybu'r Gymraeg a gweithgareddau cysylltiedig penodol**, yn hytrach na symud tuag at cyfundrefn lle byddai'r Llywodraeth yn darparu cyllideb craidd i'r mudiad.

“Mae cynnydd yn yr iaith o fewn mudiad CFFl yng Nghlwyd oherwydd yn swyddogol fod raid i bopeth fod yn ddwyieithog, ac yn raddol dros gyfnod mae yn cryfhau yn yr ardaloedd lle mae... Saesneg yn cael ei siarad fwyaf”

“Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn parhau i gynnal sioeau a marchnadoedd ayyb lle mae bwrlwm o Gymraeg”

5.5 Addysg ac Adnoddau Addysgol

Cafwyd sylwadau'n crybwyll **creu gwersi Cymraeg gyda chynnwys wedi ei lunio o gwmpas themâu amaethyddol**, a'u cynnal mewn canolfannau gwledig megis marchnadoedd da byw a siopau amaethyddol megis Wynnstay neu CCF. Mynegwyd y byddai'r gwersi yma yn apelio at ffermwyr di-Gymraeg, a hefyd gweithwyr yn y sector gyflenwi a gwasanaethau amaethyddol a fyddai'n gweld defnydd ymarferol a gwerth masnachol i'r sgiliau iaith hyn. Gofynnwyd os oedd yna gyfle i gynnal **grwpiau sgwrsio** i amaethwyr sy'n ddysgwyr a'r sector ehangach mewn canolfannau fel hyn hefyd, gyda ffermwr rhugl yn arwain y trafod. Cafwyd sgwrsiau hefyd ynglŷn â chynnig hyfforddiant syml i'r arweinwyr cymunedol hyn, er mwyn cynyddu eu hyder a'u gallu wrth arwain sgwrsiau. Clywyd bod Undeb Amaethwyr Cymru yn ystyried datblygu cwrs "Say Something in Welsh" ag iddo naws amaethyddol, ond ni chafwyd unrhyw fanylion ar ddatblygiad cyfredol y syniad, a gofynnwyd os byddai modd darparu nawdd cyhoeddus ar gyfer menter o'r fath.

Trafodwyd y posibilrwydd o **sefydlu system gefeillio** a fyddai'n gwahodd aelodau'r gymuned amaethyddol sy'n ddi-Gymraeg i dreulio cyfnod gydag amaethwyr Cymraeg eu hiaith. Gwneud gwaith fferm yn gyfnewid am wersi Cymraeg! Mynegwyd y posibiliad hefyd o ehangu'r cyfnewid ieithyddol hwn y tu hwnt i weithwyr amaethyddol uniongyrchol, ac i gynnwys unigolion eraill o'r sector wledig, efallai gan gynnwys unigolion o'r sector gadwraethol. Teimlwyd y byddai gwneud hyn yn medru cynorthwyo i gynyddu dealltwriaeth rhwng y sectorau wedi ei ganolbwyntio o amgylch gweithredu cadarnhaol dros y Gymraeg. Er yr awydd i wireddu hyn, daeth yn amlwg o drafodaethau'r grwpiau ffocws na fyddai rhai ffermwyr yn croesawu'r baich gwaith ychwanegol a ddaethai o ganlyniad i gynllun o'r fath. Cynigwyd y byddai angen **strwythur ffurfiol i gynnal y system gefeillio**, efallai gydag unigolyn/ion i gynorthwyo gyda'r trefniadau ac efallai gydag elfen o gymorth ymarferol i'r cyfranogwyr.

Mynegwyd teimladau cryfion dros yr angen i **gynnal ysgolion gwledig** er mwyn cynnal cymuned ac iaith fyw. Cynigwyd creu grŵp "Amaethwyr dros Addysg Gymraeg" ar lefel Cenedlaethol i lobïo dros warchod ysgolion gwledig (tebyg i RhAG).

Tanlinellwyd pwysigrwydd **darparu addysg amaethyddol ôl-l6 drwy gyfrwng y Gymraeg**. Teimlwyd nad oedd y ddarpariaeth gyfredol yn ddigonol, gyda myfyrwyr yn mynegi rhwystredigaeth mai ddarpariaeth gyfieithu oedd y ddarpariaeth Gymraeg fel y cyfryw – h.y. nad oedd fawr ddim o'r modiwlau yn cael eu darparu yn y Gymraeg, ond eu bod hwythau yn medru cyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg a byddai'n cael ei gyfieithu i'r Saesneg er mwyn ei farcio. Teimlodd un myfyriwr eu bod o dan anfantais o'i gymharu â'u cymheiriaid oedd yn astudio trwy gyfrwng y Saesneg, oherwydd nad eu gwaith hwy oedd yn cael ei farcio, ond gwaith y cyfieithydd. Golygai hyn eu bod hefyd yn methu ar gyfleoedd ymarferol i ehangu eu geirfa amaethyddol ac amaethwyddonol Gymraeg o ganlyniad i'r ffaith bod y pwnc yn cael ei gyflwyno bron yn uniaith Saesneg. Mynegwyd gan unigolion hyn bod y sefyllfa yma wedi ei adnabod ac wedi bod yn destun adroddiadau ddegawdau yn ôl, ond bod y ddarpariaeth wedi dirywio yn bellach yn ddiweddar. Teimlwyd bod angen dwys i fynd ati i **gomisiynu a chreu adnoddau dysgu amaethyddol Cymraeg ar gyfer y sector addysg bellach ac uwch**, gan greu cyfundrefn fel yr un sydd yn darparu a chyfieithu adnoddau addysg ar gyfer y sector addysg cynradd ac uwchradd.

"Could a young girl or boy with an interest in learning Welsh go and get a summer placement on a [Welsh speaking] farm in, I don't know, Carmarthenshire?"

"Offer free Welsh lessons in places local to us, not in the towns"

5.6 6 Bywyd tu hwnt i'r Buarth

Un ddolen gyswllt rhwng pob ymateb i'r cwestiwn "Beth yw'r peth gorau am fyw yng nghefn gwlad?" oedd yr ymdeimlad o gymuned a pherthyn sydd yn gysylltiedig â'n hardaloedd gwledig a'n cymunedau amaethyddol. Cryfder y canfyddiad yma yw un o'r prif atyniadau wrth **gadw ieuenctid yn ardaloedd eu magwraeth a denu unigolion yn ôl** i gymunedau gwledig. Mynegwyd **pwysigrwydd strwythurau a mudiadau cymdeithasol** megis CFFl, Merched y Wawr, sioeau lleol, corau a chlybiau chwaraeon wrth ddarparu a chynnal **cyd-destun byw i'r iaith** a'r cymunedau sydd yn ei chynnal. Y cymunedau eu hunain sydd yn cynnal y rhan fwyaf o'r mudiadau hyn, ac mae pwysigrwydd gweithredu o sylfaen cymuned gref yn amlwg yn yr ymatebion.

Cwestiynwyd hefyd y canfyddiad nad oes gwaith yng nghefn gwlad a bod angen gwneud mwy i hyrwyddo'r ffaith fod yna gyfleoedd yn bodoli.

Adnabuwyd bod yna dwll yn y ddarpariaeth i amaethwyr oed ôl-CFFl (sef 26+). Gwyntyllwyd y potensial i **sefydlu mudiadau hamdden i'r grŵp oedran hwn** i gynnal gweithgarwch Cymraeg a chyfrannu at gynnal a lledu'r iaith. Ond cydnabuwyd hefyd fod yr oed yma yn debygol o fwydo i'r cymdeithasau a nodir yn y paragraff blaenorol.

Tanlinellwyd bod angen cynnig **cyfleoedd i'r cymunedau amaethyddol di-Gymraeg i ddod i adnabod yr iaith a gweithredu drwyddi**. Awgrymwyd bod yna groeso i'r Gymraeg os darperir gyfle.

***"Nid y trefniadau ffurfiol... fydd yn sicrhau ffyniant iaith, ond defnydd cymdeithasol ohoni."
(Cyfrannydd yn dyfynnu Suzanne Romain)***

6. Canfyddiadau

Awgryma ymchwil “*laith y Pridd*” (sy’n seiliedig ar farn y bobl a fu’n rhan o’r prosiect) bod yma gyfle i weithredu wrth warchod **ac** ymestyn y Gymraeg mewn cylchoedd amaethyddol, a hynny ar lefel polisi Llywodraeth, ac ar lefel gymunedol.

Cynigir na ddylid colli cyfle i fanteisio ar *adnodd* pwysig sy’n bodoli, (sef Cymry Cymraeg mewn niferoedd), a’r ffaith eu bod yn rhannu tir cyffredin (sef amaeth) gyda chymunedau di-Gymraeg.

Gan fod yr adroddiad hwn wedi casglu cyfoeth o syniadau am ffyrdd o weithredu’n ymarferol, a bod y cysylltiadau naturiol sy’n bodoli rhwng sefydliadau a chyrff amaethyddol yn cynnig cyfleodd a sylfaen i weithredu, dylid gweithredu i sicrhau ffyniant y Gymraeg mewn Amaeth. Gellid wneud hyn ar ddwy lefel:

Ar lefel Llywodraethol, dylid:

- i. Sicrhau bod polisiau a’r system gymorthdaliadau yn cefnogi gweithgarwch ar y fferm deuluol, a chapio cymorthdaliadau sy’n gysylltiedig â pherchnogaeth tir. Dylai’r system daliadau fod yn seiliedig ar y nifer sydd yn ennill eu bywoliaeth o’r fferm ac yn osgoi blaenoriaethu rheolaeth anweithredol o dir fferm.
- ii. Sicrhau bod y gyfundrefn gynllunio yn cefnogi datblygiad mentrau gwledig/arallgyfeirio amaethyddol, a gwarchod aelodau’r gymuned amaethyddol rhag cael eu gwrthio o’u cymunedau am nad oes ganddynt gartrefi ac am fod ail-gartrefi/tai haf yn tra-arglwyddiaethu yno.
- iii. Ffurfioli’r gefnogaeth i glybiau Ffermwyr Ifanc i hyrwyddo’r iaith Gymraeg yn sirol ac yn genedlaethol.
- iv. Gweithio gyda’r sector ôl I6 i gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg ar gyrsiau sydd yn gysylltiedig ag amaeth ac ariannu cyfundrefn i gyhoeddi a chyflaithu adnoddau addysg amaeth ar gyfer y sector
- v. Ariannu swydd hwylusydd ar lefel genedlaethol (efallai mewn sefydliad, swyddfa neu gynllun perthnasol) i arwain y dasg o gydlyn partneriaid sydd â diddordeb mewn datblygu’r Gymraeg ym myd amaeth. Dan arweiniad yr hwylusydd gellid sefydlu corff o aelodau a fyddai’n mynd ati i weithredu’r cynlluniau ymarferol canlynol:

Ar lefel Gymunedol, byddai modd gweithredu fel a ganlyn:

Gellid sefydlu corff o aelodau i weithredu ar y cynlluniau ymarferol canlynol, o dan anogaeth a chyfarwyddyd yr hwylusydd (gweler yr uchod):

- i. Sefydlu cynllun gefeillio rhwng aelodau’r gymuned amaethyddol, a hefyd rhwng amaethwyr ac unigolion mewn sectorau perthynol
- ii. Annog yr Undebau amaeth i adnabod unigolion a allai gymryd cyfrifoldeb dros y Gymraeg yn eu hundeb.
- iii. Ysgogi, galluogi a chefnogi to amaethyddol ifanc i ddysgu sgiliau digidol i greu cynnwys sy’n hyrwyddo delwedd gadarnhaol o’r Gymraeg yn eu cymuned a’i ddarlledu ar-lein.
- iv. Annog datblygiad mudiadau hamdden i bobl oed ôl-CFfl.
- v. Cychwyn cynllun dysgu Cymraeg ar-lein ag iddo ogwydd amaethyddol.
- vi. Agor grwpiau sgwrsio/dosbarthiadau Cymraeg i ddysgwyr mewn mannau ymgynnull amaethyddol.

Yn yr hir-dymor, cynigir y byddai'r hwylusydd a'r partneriaid yn troi eu sylw at:

- Ddatblygu statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) i'r Gymraeg. Roedd awydd ymhlith cyfranwyr, i adnabod y Gymraeg fel Nodwedd Arbennig, a'i gynnwys mewn ceisiadau grant / prosesau caffael / tendrau. Roedd yna argymhelliad bod y sawl sy'n gallu profi eu bod yn gweithredu i amddiffyn/dyfu yr iaith yn sgorio pwyntiau ychwanegol fel y ceir wrth ddangos tystiolaeth yn erbyn meini prawf eraill.
- Atgyfnerthu datblygiad labeli Cymraeg ar gynnyrch bwyd, gan roddi cyfle i gynnyrch amaethyddol ledu'r iaith i'r gymuned yn ehangach. Rhoi cefnogaeth i'r marchnadoedd da byw am eu bod yn cynnig cyfle cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn blatfform i'r iaith gael ei chlywed gan amaethwyr di-Gymraeg, ac yn ysgogydd sosio-economaidd i amgylchedd yr iaith. Cefnogi darpariaeth i'r di-Gymraeg gael cyfieithu deunydd i'w busnes/menter wledig a hyrwyddo cynhyrchion/gwasanaethau.
- Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau / cyrff / asiantaethau / busnesau sy'n ymwneud ag amaeth.
- Gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol mewn mannau lle mae amaethwyr di-Gymraeg yn ymgynnull, er mwyn normaleiddio'r iaith.

7. Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn a'r dystiolaeth cynradd a gofnodwyd yn rhoi cyd-destun clir a phendant i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r iaith a'r diwydiant sydd yn ei chynnal dros ran helaeth o dirwedd Cymru. Un o'r prif ganfyddiadau nad ydyw'n eglur o'r argymhellion yw llwyddiant y modd aml-gyfrwng o ymholi ac ymgysylltu a ddefnyddiwyd wrth ei greu. Wrth daflu'r rhwyd yn eang, daethpwyd â nifer o leisiau gwahanol ynghyd, o bob cwr o Gymru, cefndir ac oedran. Gwir gyfoeth cynnwys yr adroddiad yw'r lleisiau unigol sydd yn cyfuno i greu, dilysu ac atgyfnerthu'r canfyddiadau ac argymhellion a ymgorfforir yma. Ond, nid yw'r adroddiad hwn yn derfyn taith, yn hytrach mae'n gychwyn cadarn i drafodaeth ehangach fyth.

Nododd un o'r cyfranwyr ddyfyniad gan Suzanne Romaine, wrth iddi drafod ei gwaith 'Vanishing Voices' yn 2005:

“Mae shift iaith yn digwydd nid am fod rhagor o ddewis ond am fod llai”.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r dewis sydd ar gael yn y sector amaethyddol i warchod yr iaith Gymraeg nawr ac yn nodi rhai o'r ffactorau a allai fygwth y dewis hwnnw, tra hefyd yn tanlinellu'r cyfleoedd i ehangu'r dewis er mwyn tyfu a lledu'r iaith yn y dyfodol. Awgryma canfyddiadau iaith y Pridd bod y berthynas rhwng yr amryw o ffactorau, cadarnhaol a bygythiol, sydd yn wynebu'r diwydiant amaethyddol, cefn gwlad Cymru a'r iaith Gymraeg yn gorgyffwrdd i'r fath raddau fel nad oes modd na diben ymneilltuo un o'r gweddill – wrth warchod ac ehangu un, mae'r gweddill ar eu hennill, wrth fygwth un, maent oll ar eu colled.

“Oes modd achub ieithoedd dan fygythiad?... Oes... Ond dim ond gan ddilyn strategaethau gofalus... a dim ond os yw gwir gymhlethdod hunaniaeth leol, gallu ieithyddol a rhyng-ddibyniaeth byd-eang yn cael eu cydnabod yn llawn”.

- Joshua Fishman

